Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.12 Technegau ymgyrchu a lobio

Trosolwg

Dylid darllen y daflen wybodaeth yma gyda thaflen *11.11 Cynllunio ymgyrch.* Dylai'r technegau a ddefnyddiwch ar gyfer eich ymgyrch fod yn deillio o'r gwaith cynllunio a wnaethoch ymlaen llaw. Mae yna ystod eang o dechnegau ymgyrchu a lobïo a allech eu hystyried i wella'ch ymgyrch, a grwpiwyd hwy i bedwar maes: y gair ysgrifenedig; defnyddio'r cyfryngau; ysgogi'ch cefnogwyr a lobïo gwleidyddion.

1. Defnyddio'r gair ysgrifenedig

- Ysgrifennu llythyr
- Taflenni
- Cardiau post
- Posteri
- Deisebau

Ysgrifennu llythyr

Gall hyn fod yn ddechreubwynt da ar gyfer cyswllt cyntaf gyda tharged eich ymgyrch. Efallai bod llythyr yn araf ac yn hen ffasiwn yn oes y dechnoleg newydd, ond bydd gan eich targed rywbeth i'w astudio a chyfeirio ato. Mae hefyd yn llai tebygol o gael ei golli yn y llu o e-byst dyddiol, ac am ei fod yn hanfod materol, anodd yw ei anwybyddu. Mae'n werth cofio hefyd, tra bod e-ymgyrchu yn rhad ac yn medru cyrraedd llu o bobl, gall y dechnoleg weithio yn erbyn yr ymgyrchydd wrth i systemau ffilter soffistigedig adnabod a gwaredu e-byst sy'n rhan o grŵp mawr.

Ceisiwch wneud y llythyr yn bersonol drwy ei gyfeirio'n bersonol, gofyn cwestiynau penodol, a gofyn am eu barn bersonol. Unwaith eto, golyga hyn y byddwch yn fwy tebygol o dderbyn ateb, yn hytrach na'i anfon ymlaen at rywun arall yn yr adran, neu berson arall.

Mae cael pobl eraill i ysgrifennu hefyd yr un mor bwerus, ond gall hyn beidio gweithio os ofynnwch i bobl ddefnyddio ffurf safonol. Anogwch bobl i ysgrifennu'n bersonol, am fod hyn yn fwy effeithiol na nifer fawr o'r un llythyr. Yn wahanol i ddeiseb neu gerdyn post, gall llythyr esbonio sut mae unigolion yn cael eu heffeithio.

Meddyliwch am amseru os ydych yn annog pobl eraill i ysgrifennu. Oes rhywbeth yn digwydd yn yr amgylchfyd allanol all wanhau effaith y llythyr? Hefyd, am fwy o effaith, ceisiwch sicrhau fod eich targed yn derbyn llythyron o fewn cyfnod amser byr - bydd 25 llythyr o fewn pythefnos yn fwy effeithiol nag un llythyr bob pythefnos am sawl mis. Pethau eraill i gofio am ysgrifennu llythyr yw:

- Byddwch yn fyr gyda ffocws – cadwch at dudalen os yn bosib a soniwch am un pwnc ymhob llythyr
- Ceisiwch osgoi mynd ar grwydr
- Gwnewch ddau neu dri phwynt allweddol yn unig - gwell fyth, sicrhewch fod eich pwyntiau yn cynnwys datrysiadau
- Rhowch y wybodaeth bwysig yn y paragraff cyntaf (pwy, pam, beth, ble a phryd)
- Meddyliwch am sut i drin y dystiolaeth gefnogol, fel na fyddwch yn gorlwytho'r darllenydd - efallai ysgrifennwch grynodeb ar dudalen ar wahân
- Diolchwch i'r derbynnydd am ei amser a gofynnwch yn gwrtais am ateb.

Taflenni

Mae llawer o drefnwyr ymgyrch yn meddwl am ddylunio, printio a dosbarthu taflenni i roi gwybodaeth i bobl am yr ymgyrch a sut i fod yn rhan ohono. Os oes gennych yr adnoddau i wneud hyn, gall fod yn weithgaredd deniadol, ond mae'n werth treulio amser i feddwl am sut y bydd y taflenni'n cael eu defnyddio.

Gall anfon nifer fawr o daflenni fod yn gostus ac efallai ddim yn effeithiol. Rydyn ni gyd yn brysur ac yn derbyn llawer iawn o wybodaeth sy'n gwneud un daflen unigol yn hawdd ei anwybyddu - mae llawer yn mynd yn syth i'r bin ailgylchu. Meddyliwch am y nifer o weithiau y tafloch daflenni i ffwrdd heb eu darllen.

Fodd bynnag, gall taflenni fod yn adnodd wrth gefn ar gyfer gweithgareddau eraill:

- Os ydych yn cynnal cyfarfod cyhoeddus, efallai byddwch eisiau dosbarthu taflenni yn y cyfarfod i atgoffa pobl am y materion pwysig a'r manylion cyswllt ar ôl iddynt fynd adref
- Os ydych yn ymgyrchu o ddrws i ddrws bydd taflen yn gwneud yr un pwrpas
- Os oes gennych stondin stryd, bydd taflen yn rhoi ffocws i sgwrs yn ogystal â rhoi'r materion pwysig a'r manylion cyswllt.

Agwedd gadarnhaol arall yw bod dylunio taflen yn eich gorfodi i ganolbwyntio ar negeseuon allweddol eich ymgyrch - sicrhau eu bod yn fyr, yn afaelgar ac yn ddealladwy.

Ymgyrchoedd cardiau post

Mae llawer ymgyrch yn defnyddio dull printio nifer fawr o gardiau post sy'n sôn am brif negeseuon a gofynion allweddol yr ymgyrch. Gofynnir wedyn i unigolion lenwi manylion eu cynrychiolydd (Aelod Seneddol, Aelod y Cynulliad neu gynghorydd lleol) a'i anfon ato.

Mae yna fanteision ac anfanteision y math yma o weithgaredd a ddylid eu hystyried. Gall fod yn ffordd o genhedlu rhifau mawr gan ei fod yn weddol syml i unigolion gofrestru eu diddordeb ar gyfer ymgyrch penodol. Mae unrhyw beth sy'n cenhedlu rhifau mawr yn beth da am ei fod yn dangos cryfder teimladau a chefnogaeth. Fodd bynnag, nid yw 'run fath â negeseuon personol neu hanesion gan unigolion am sut mae gwasanaeth neu bolisi yn effeithio bywyd neu gyfleoedd rhywun. Yn amlwg, techneg hynod effeithiol yw cenhedlu rhifau uchel o hanesion personol, ond anodd yw cyflawni hynny.

Peth arall i'w ystyried yw sicrhau fod yr ymgyrch cardiau post yn digwydd dros gyfnod byr o amser. Mae'r un peth yn digwydd gydag ysgrifennu llythyr, h.y. mae effaith rhifau mawr o gardiau post dros gyfnod o 2 wythnos yn llawer mwy effeithiol nag ambell un fan hyn a fan draw dros gyfnod o 6 mis. Wrth gwrs, sicrhewch sut bydd y cyfan yn gweddu i'ch amseru a gweithgareddau eraill a gynlluniwch er mwyn gwneud y gorau o'ch ymdrechion.

Ymgyrchoedd posteri

Gall posteri fod yn ddulliau ymgyrchu hynod effeithiol. Ond rhaid i chi ystyried rhai pethau os ydych eisiau llwyddo:

- Oes gyda chi'r arian a'r dulliau i adnoddau i gynhyrchu posteri?
- At bwy ydych yn anelu'r posteri?
- Dylai posteri gawl ddelweddau / lluniau cryf ac ychydig o eiriau. Mae'r tri canlynol yn enghreifftiau gwych:

  - Shelter, www.bl.uk/learning/images/Campaign_MAI/posters/large92615.html
  - Barnados www.bl.uk/learning/images/Campaign_MAI/posters/large92625.html ac
  - Anti-Slavery International www.bl.uk/learning/images/Campaign_MAI/posters/large92631.html

- Meddyliwch am wahanol faint ar gyfer ardaloedd gwahanol
- Lleolwch eich posteri yn agos at leoedd ble fydd eich cynulleidfa darged yn eu gweld
- Defnyddiwch bosteri mawr tu allan mewn ardaloedd trafnidiaeth, ond cofiwch y gall gwagle hysbysebu fod yn hynod ddrud
- Defnyddiwch bosteri mewn mannau cyhoeddus mewnol. Gan ddibynnu ar gynnwys y poster a'ch cynulleidfa, gallwch eu rhoi mewn ysgolion, eglwysi, swyddfeydd post, neuaddau cymunedol, ysbytai, canolfannau siopa, meysydd chwaraeon, theatrau ac adeiladau eraill sy'n denu'r cyhoedd. Fel arfer mae yna le arbennig ar gyfer arddangos posteri. Sicrhewch eich bod yn gofyn caniatâd cyn gosod y posteri. Fel arfer, cewch osod eich poster am ddim, ond gall rhai mannau godi tâl. Hefyd, cofiwch ei dynnu lawr ar ddiwedd yr ymgyrch, fel arwydd fod y cyfan drosodd, ac fel arwydd o barch i weinyddwyr y man cyhoeddus.

Gall posteri gyd-fynd â thaflenni a gall y ddau fod yn hynod effeithiol pan fod y ddelwedd yn bwerus - naill ai'n ysgytiol neu'n ddadleuol neu weithiau'n ddoniol.

Deisebau

Mae casglu llofnodion mewn deiseb yn gallu bod yn ddull defnyddiol o ddangos faint o bobl sy'n cefnogi'r ymgyrch. Does dim rhaid iddo fod yn weithgaredd adnoddau trylwyr; gellir gadael deisebau mewn sawl lleoliad gwahanol. Fodd bynnag, gall fod yn fwy effeithiol os gofynnwch i rai cefnogwyr i chwilio am lofnodion, gan fod hyn yn rhoi cyfle i esbonio amcanion yr ymgyrch yn fwy manwl. Efallai gallwch recriwtio mwy o ymgyrchwyr drwy sgwrsio â phobl am yr ymgyrch.

Mae'n werth darganfod sut bydd eich deiseb yn cael ei dderbyn gan y sefydliad yr anelir ato. Oes ganddynt broses i ddelio â deisebau? Beth sy'n debygol o ddigwydd i'ch gwaith caled? Mae gan rai sefydliadau, megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru, broses arbennig ar gyfer deisebau ble mae angen 10 llofnod yn unig, tra bod eraill heb broses a'i roi yn syth yn y bin sbwriel. Ble nad oes proses penodol, efallai gallwch ddal i bwyso drwy ddilyn eich deiseb gyda chwestiynau am ymateb y sefydliad. Gellir perswadio'r cyfryngau i ymddiddori mewn deisebau, ac efallai byddant yn barod i ymdrin â'ch stori a'ch helpu i gynnal pwysau am ymateb.

2. Defnyddio'r cyfryngau

- Cyngor cyffredinol ar weithio gyda'r cyfryngau
- Llythyron at y Golygydd
- Cyfweliadau teledu a radio
- Datganiadau i'r wasg

Yma, edrychwn yma ar sut i wneud y gorau o'r newyddion ac allfeydd eraill i wella'ch ymgyrch. Bydd angen i chi feddwl am bapurau, teledu, radio ac efallai cyfryngau megis Independent Media Centre a Schnews. Hefyd, peidiwch anghofio ystyried taflenni rhad ac am ddim a ddosbarthir mewn sawl man; gellir darllen y rhain yn fwy eang na phapurau newydd. Bydd angen hefyd i chi ystyried cyfryngau newydd neu rai cymdeithasol megis e-ymgyrchu. Golyga hyn ddefnyddio'r rhyngrwyd (Twitter, Facebook, YouTube ac ati) fel platfform ymgyrchu. Byddwn yn datblygu taflen wybodaeth arbennig ar hwn yn y dyfodol agos.

Yn nhermau cyfryngau confensiynol fodd bynnag, yn gyntaf bydd angen i chi ddod i adnabod eich cysylltiadau allweddol yn y cyfryngau lleol. Oes yna golofnwyr penodol sydd yn berthnasol i'ch mater? Os na wyddoch, ceisiwch ddarganfod beth yw diddordebau newyddiadurwyr a golygyddion penodol. Os nad oes gennych syniad ble i ddechrau, trïwch y ddesg newyddion - mae gan bob sefydliad newyddion ei ddesg newyddion ble prosesir pob darn o newyddion. Fodd bynnag, efallai bydd yn fwy gwerthfawr i geisio creu cyswllt personol gyda'r newyddiadurwyr a'r bobl broffesiynol yn y cyfryngau. Mae'r rhain yn bobl brysur sydd yn ymateb i derfynau amser tynn - os gallwch fod o ddefnydd iddynt, byddant yn fwy tebygol o sôn am eich stori. Hefyd, darganfyddwch y pethau pwysig megis terfyn amser ar gyfer copi - byddant yn wahanol ar gyfer pob cyfrwng.

Mae cynllunio cyfryngol yn allweddol ar gyfer cynllunio ymgyrch a dylai eich strategaeth gyfryngol ddilyn pwrpas eich ymgyrch, eich cynulleidfa darged a pham ydych angen ymdriniaeth ar faterion penodol, ac os yw'r cyfryngau yn debygol o fod yn diddori ynddo. Er eich bod chi o'r farn fod y mater yn bwysig, nid yw hyn yn golygu fod y cyfryngau o'r un farn, a bydd angen i chi fod yn wrthrychol parthed eich asesiad. Efallai bydd yn wrthgynhyrchiol i barhau i anfon datganiadau i'r wasg, a chael enw drwg am wastraffu amser - gall eich stori fawr gael ei anwybyddu oherwydd y dulliau yma.

Pan fyddwch yn gweithio gyda'r cyfryngau, byddwch yn dal eu sylw os yw'r hyn a ddywedwch yn fyr ac yn glir. Cadwch at 3 pwynt allweddol mewn unrhyw ddatganiad, a dylid esbonio pob pwynt mewn brawddeg neu ddwy. Ymarferwch hyn nes ei berffeithio - meddyliwch os ydych mewn lifft gyda'r newyddiadurwr, mae gennych tan y llawr uchaf i esbonio eich stori. Darganfyddwch ffyrdd o atgyfnerthu eich neges gyda chyfuniad o nodiadau, ystadegau a straeon am bobl leol a cheisiwch ail-ddweud eich neges.

Rydych hefyd eisiau dod o hyd i'r ongl iawn ar gyfer eich neges. Oes yna ddiddordeb lleol cryf? Oes yna ddrama neu ddadl? Oes yna stori gref? Ydy e'n hawdd i'w ddeall? Ydy e'n perthyn i rywbeth arall sydd yn y newyddion? Oes yna sgandal? Oes yna elfen diddordeb dynol? A ellir cynhyrchu lluniau da?

Llythyron at y golygydd

Dyma ffordd dda o genhedlu trafodaeth yn y papurau lleol gan fod y dudalen llythyron yn cadw'r pwnc yn fyw am ddyddiau ac wythnosau hyd yn oed. Efallai byddwch yn cyflwyno pwnc am y tro cyntaf, neu ymateb i erthygl neu lythyr a gyhoeddwyd o'r blaen. Mae yna rai pethau cyffredinol i'w hystyried wrth ysgrifennu llythyr:

- Ystyriwch y darllenwyr a sicrhewch fod eich pwyntiau yn apelio. Darllenwch lythyron eraill i weld yr arddull a gyhoeddir.
- Peidiwch refru gormod - mae digon o lythyron yn gwneud hyn, felly byddwch yn dawel, yn rhesymol ac yn wybodus yn eich sylwadau.
- Fodd bynnag, weithiau bydd angen i chi fod ychydig yn fwy heriol neu'n ddigri er mwyn sicrhau cyhoeddi eich llythyr.
- Cofiwch wneud eich pwyntiau allweddol a glynu atynt.
- Os yw'n addas, ceisiwch gael llofnodion pobl nodedig - bydd llofnod person enwog yn rhoi mwy o bwys i'r llythyr.
- Cynhwyswch eich enw a chyfeiriad, hyd yn oed os gofynnwch iddynt ei atal, am fod rhai papurau yn gwrthod cyhoeddi llythyron dienw.
- Cofiwch gadw eich llythyr yn fyr - gwell fyddai gollwng un pwynt i sicrhau byrder y llythyr. Edrychwch ar lythyron eraill i gael syniad o'r hyd cywir.

Cyfweliadau teledu a radio

Dyma ffordd bwerus o drosglwyddo'r neges os ddilynwch y rheolau syml. Os ydych wedi paratoi'n drylwyr, ni fyddwch yn colli cof, neu ddweud y peth anghywir, neu eich dyfynnu'n anghywir.

Cofiwch os ydych yn ddefnyddiol i newyddiadurwr, maent yn fwy tebygol o ddefnyddio eich stori. Fodd bynnag, os gofynnir ichi am gyfweliad, does dim rhaid i chi wneud hynny. Os ydych o'r farn nad yw'r newyddiadurwr neu'r sioe yn dangos cydymdeimlad, neu os gredwch fod eich newyddion da yn mynd i droi'n ddrwg, gallwch, a dylech wrthod rhoi cyfweliad.

Dylech ddarganfod cymaint â phosib am y cyfweliad ymlaen llaw, os yw'n fwy neu wedi'i recordio; beth fydd ei ddefnydd; beth yn union yw'r pwnc, ac os allwch gael amlinelliad o'r prif gwestiynau. Os yw'r cyfweliad dros y ffôn, darganfyddwch cymaint â phosib drwy ofyn am y cwestiynau ymlaen llaw a threfnu recordio'n ddiweddarach fel bod amser gennych i baratoi.

Dyma rai canllawiau paratoi cyn y cyfweliad:

- Cofiwch eich neges allweddol (a rhai ffeithiau wrth gefn) a glynwch atynt, gan gadw eich neges mor fyr a syml â phosib.
- Bydd ymarfer eich negeseuon yn uchel yn eich helpu i deimlo'n fwy hyderus yn y cyfweliad.
- Sicrhewch eich bob yn gwybod y pethau amlwg am eich mudiad a pham ydych yn gweithredu.
- Ceisiwch ragweld y cwestiynau anodd a pharatowch atebion byr - efallai gallwch feddwl am eich gwrthwynebwyr a pha faterion allent eu codi yn erbyn eich ymgyrch.
- Ceisiwch ddatblygu rhai cymalau bachog.
- Os yw'n gyfweliad teledu, meddyliwch am eich gwisg. Mae smart a mwyn yn dda, ond bydd rhywbeth rhy achlysurol neu ecsentrig yn tynnu oddi ar eich neges.

Ac yn ystod y cyfweliad:

- Cofiwch y gall unrhyw beth a ddywedwch gael ei ddyfynnu gan y newyddiadurwr. Os nad ydych eisiau ei gynnwys yn y cyfryngau, peidiwch â'i ddweud, hyd yn oed os yw'r sgwrs yn answyddogol.
- Ceisiwch swnio'n angerddol, ond cadwch yn dawel - ni fydd gweiddi neu refru yn helpu eich achos.
- Nac ychwaith pregethu - nid yw pobl eisiau clywed beth ddylent wneud, ond maen nhw angen gwybod manteision ymuno â'ch ymgyrch.
- Os yn bosib, rheolwch y cyfweliad. Defnyddiwch y dechneg yma:

A Cydnabyddwch y cwestiwn (1 eiliad) e.e. ie...na... wn i ddim... ni allaf ateb hynny…….

B Pontiwch (3 eiliad) e.e. ond... fodd bynnag... beth alla i ddweud yw..... i fod yn glir....

C Rheolaeth ac eglurdeb (30 eiliad) e.e. negeseuon allweddol

CH Hongian e.e. beth sydd yn wir ddiddorol yw.....

- Edrychwch am yr arwyddion fod yr holwr yn eich arwain tuag at ddadl, a pheidiwch gadael i hyn ddigwydd - parchwch eu safbwynt, esboniwch ble maen nhw'n anghywir a glynwch at eich negeseuon.
- Defnyddiwch straeon am bobl real.
- Cadwch bopeth yn syml a pheidiwch defnyddio jargon. Defnyddiwch gyffelybiaethau os ydych yn sôn am rywbeth cymhleth.
- Peidiwch dweud celwydd a pheidiwch cogio eich bod yn gwybod am rywbeth os nad ydych.
- Rhowch gyfreithlondeb i'ch ymgyrch drwy siarad am eich mudiad.
- Os yw'n gyfweliad teledu, gwyliwch iaith eich corff a pheidiwch aflonyddu. Os ydych yn eistedd ar gadair, eisteddwch yn syth, gan bwyso ymlaen a defnyddio'ch dwylo i gyfathrebu (heb eu fflapio!)
- Os recordir y cyfweliad, gofynnwch am ail- recordio rhan ohono, os nad ydych yn hapus.

Gyda'r cyfan drosodd, peidiwch anghofio anfon neges fer at y cyfrwng i ddiolch am y cyfle i gymryd rhan. Gwyliwch neu gwrandewch ar eich moment fawr, a cheisiwch werthuso eich perfformiad, a gofyn i eraill eich helpu i wneud hyn - oedd y neges yn glir? Beth fyddwch yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Datganiadau i'r Wasg

Ceisiwch anfon datganiadau i'r wasg ar bob cam allweddol yn eich ymgyrch, ond cofiwch mai dim ond nifer fach o ddatganiadau sy'n cael eu cyhoeddi. Pwrpas datganiad i'r wasg yw rhoi ffeithiau am fater a galluogi'r gohebwyr i gael mwy o fanylion ble'n bosib. Mae'n werth cofio'r pwyntiau canlynol wrth baratoi datganiad i'r wasg:

- Cadwch e'n fyr – un ochr A4 os yn bosib
- Rhowch ddyddiad ar y blaen fel ei fod yn amlwg ei fod yn gyfredol
- Mynnwch bennawd byr a bachog
- Cadwch y wybodaeth yn syml (ac mewn arddull sy'n siwtio'r cyhoeddiad)
- Sicrhewch fod y paragraff cyntaf yn fyr – dwy neu dair brawddeg yn crynhoi'r holl neges. Cofiwch fod yr is-olygydd yn torri o'r gwaelod.
- Ceisiwch osgoi jargon.
- Os ddefnyddiwch ddyfyniadau, sicrhewch eu bod oddi wrth unigolion a enwir. Gwnewch yn siŵr fod y person hwnnw ar gael i siarad os oes angen.
- Rhowch eich manylion cyswllt ar y gwaelod - gan gynnwys rhif ffôn symudol; efallai bydd gohebwyr eisiau cysylltu â chi y tu allan i oriau gwaith.

- Prawf ddarllenwch y cyfan, a mynnwch rywun arall i wneud yr un peth - nid yw camgymeriadau yn dderbyniol, a gallant amau hygredded eich ymgyrch.

3. Ysgogi'ch cefnogwyr

Pwy yw eich cefnogwyr a beth allant wneud i chi?

Mae cenhedlu a chynnal cefnogaeth ar gyfer eich ymgyrch yn elfen allweddol i'w gynnwys yn eich cynllunio. Mae yna sawl dull i recriwtio cefnogwyr ac efallai fod gan eich mudiad aelodau / defnyddwyr gwasanaeth / budd-ddeiliaid a allwch eu defnyddio i'ch cefnogi. Mae cyfryngau cymdeithasol yn ddull pwerus i recriwtio cefnogaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer yr ymgyrch a byddwn yn datblygu taflen wybodaeth benodol am hyn yn y dyfodol agos. Unwaith y cewch afael ar gefnogwyr rhaid ystyried beth fyddwch yn gofyn iddynt wneud.

Bydd rhai pobl gefnogol yn ymrwymo'n llwyr i gydweithio a byddant yn barod i roi o'u hamser i weithredu dros yr ymgyrch. Bydd eraill yr un mor gefnogol, ond yn medru cynnig llai o amser. Fe fydd eraill yn ddigon parod i lofnodi deiseb neu ysgrifennu at wleidydd ond yn amharod i fynychu cyfarfodydd neu wrthdystiad. Mae'n bwysig i wneud y gorau o beth bynnag a gynigir gan eich cefnogwyr, ac mae sawl arbenigwr yn cynnig ffordd dda o'u categoreiddio.

Mae NCVO 'The Good Campaigns Guide' (see: www.ncvo-vol.org.uk/products-services/publications/good-campaigns-guide-voluntary-sector) yn cynnig rhannu eich cefnogwyr fel a ganlyn:

Hyrwyddwyr – efallai mai lleiafrif yw'r rhain, ond gan eu bod yn llawn ymrwymiad, gallant weithredu fel llysgennad a chael effaith arwyddocaol.
Cefnogwyr - bydd hwn yn grŵp mwy, ac er efallai heb yr un ymrwymiad â'r hyrwyddwyr, byddant yn fodlon gweithredu o bryd i'w gilydd.
Ymunwyr - dyma grŵp mwy o faint eto. Er eu bod yn gefnogol i'r achos, efallai nad oes ganddynt amser, neu'n gwrthod cymryd rhan mewn rhywbeth sy'n rhy 'wleidyddol' yn eu tyb hwy. Ond maen nhw'n ddefnyddiol iawn, am iddynt lofnodi deisebau, rhoi at yr achos, neu ysgrifennu at bobl sy'n gwneud penderfyniadau er lles yr ymgyrch.

Er bod rhannu yn swnio'n gymhleth, gellir ei weithredu'n syml. Yn eich taflenni, trwy restr bostio eich gwefan neu adnoddau eraill, gallwch roi dewis i bobl sut allant fod yn rhan o'r ymgyrch.

Dyma rai gweithgareddau y gallech ofyn i'ch cefnogwyr weithredu ar eich rhan:

- Ymgyrchu dros y ffôn
- Canfasio o ddrws i ddrws
- Ysgrifennu llythyron / e-bost

- Lobio cynrychiolwyr etholedig
- Llofnodi a chenhedlu cefnogaeth ar gyfer deiseb
- Cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau lleol
- Recriwtio cefnogwyr eraill

Os oes gennych nifer fawr o gefnogwyr, neu os oes gennych y potensial i ddenu mwy drwy'r cyfryngau neu rwydweithiau effeithiol, gellwch ystyried digwyddiad neu brotest. Dyma rai:

- Protest
- Cyfarfodydd cyhoeddus / Gwrthdystiad
- Gwyliadwriaeth
- Styntiau
- Theatr Stryd
- Mewn-eisteddiad
- Gorymdeithiau

Protest

Gall protest gryfhau eich ymgyrch, denu'r cyfryngau a chodi arian. Unwaith y byddwch wedi sefydlu'r ymgyrch, wedi gwneud eich ymchwil ac wedi cysylltu â'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau, efallai byddwch eisiau ystyried trefnu protest. Does dim rhaid i'r digwyddiad fod yn un gwrthdaro, a gall helpu dialog agored rhwng eich ymgyrch a'r rhai sy'n ei wrthwynebu. Ond dylech ystyried yn ofalus hefyd. Efallai nad dyma'r ffordd orau i wneud eich pwynt, neu gyflawni beth rydych eisiau, ac efallai byddwch yn tarfu ar rai pobl.

Os benderfynwch brotestio, sicrhewch fod gennych bobl yn y digwyddiad sy'n deall eich negeseuon allweddol a sut i'w cyfathrebu yn y cyfryngau ac i'r cyhoedd ehangach.

Manteision

- Gall siaradwyr a chyfarfodydd cyhoeddus ddarparu dadl ar lefel uchel
- Gall siaradwr da ennyn cefnogaeth gref
- Mae protest yn gyfle da i ddosbarthu taflenni ac ennyn cefnogwyr newydd
- Gall protest ddod â'r cyfryngau at eich ymgyrch
- Mae gorymdaith fawr yn dangos cryfder teimladau
- Nid oes rhaid cael rhifau mawr i fod yn effeithiol
- Gellir cynnal gwyliadwriaeth mewn unrhyw le, gan gynnwys tu allan i ddrws eich targed.

Peryglon

- Gallwch ddenu pobl sy'n debygol o greu trwbl
- Os yw'r tywydd yn wael, efallai na ddaw rai pobl

- Os ydych yn picedu pencadlys mudiad, efallai bydd gwrthwynebiad cryf
- Os oes nifer fach yn mynychu, gallwch ddangos mai cefnogaeth gyfyng sydd gennych
- Efallai bydd angen caniatâd yr heddlu, ac nid ydynt bob amser yn fodlon
- Os ydych yn trefnu gwrthdystiad swnllyd, gall cefnogwyr canol y ffordd droi eu cefnau.

Mae yna ddulliau gwahanol o brotestio am rywbeth rydych angen ei newid. Yn gyntaf, gofynnwch beth rydych yn gobeithio cyflawni wrth gynnal protest? Ai'ch prif fwriad yw dangos cryfder eich cefnogaeth, codi ymwybyddiaeth neu ddylanwadu ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau?

Cyfarfod neu wrthdystiad cyhoeddus

Mae cyfarfod cyhoeddus yn fforwm agored i ddadlau barn ar rywbeth a thrafod amcanion yr ymgyrch neu ddatrysiadau i broblem. Mae gwrthdystiad yn ymgynulliad awyr agored i ddangos maint cefnogaeth at ymgyrch sydd â'i amcanion wedi'u penderfynu.

Mae cyfarfodydd cyhoeddus a gwrthdystiadau yn ddulliau da o brotestio os oes gennych amser i hysbysebu'r cyfan ymlaen llaw a dod o hyd i leoliad hawdd mynd ato.

Gall cyfarfodydd cyhoeddus:

- Godi ymwybyddiaeth
- Codi arian drwy gasgliadau
- Dangos lefel y gefnogaeth yn lleol
- Darparu cyfle i dderbyn cyngor neu feirniadaeth gan bobl na sy'n agos i'r ymgyrch
- Darparu cyfle i drafod eich ymgyrch gydag unrhyw wrthwynebiad.

Gwyliadwriaeth

Dyma ble mae pobl yn cadw ar ddihun yn ystod oriau cwsg am reswm neu achos arbennig. Mae'n gweithio orau pan:

- Fod craidd trefnus o bobl
- Cynhelir mewn lleoliad cyhoeddus a ddewiswyd yn dda
- Bydd yn parhau am sawl awr
- Bydd yn dawel neu'n ddistaw
- Bydd wedi'i drefnu'n ofalus ymlaen llaw fel nad oes unrhyw anrhefn yn ystod y digwyddiad.

Styntiau

Defnyddir y rhain i ddenu sylw enfawr. Maen nhw'n ddigwyddiadau unigryw a gynlluniwyd i ddenu sylw, yn enwedig gan y wasg. Gellir bod yn uchelgeisiol neu'n syml, yn ddrud neu'n rhad, ond rhaid ei gynllunio'n drylwyr, yn fwy na phrotestiadau eraill.

Bydd angen syniad bachog a chynllunio slic, neu fe ellwch greu embaras.

Theatr Stryd

Math arall o stŷnt yw creu theatr stryd. Mae sgets ddoniol a syml a berfformir ar gornel stryd yn medru denu sylw at eich ymgyrch mewn dull ysgafn. Does dim angen llawer o bropiau, dim ond ychydig o hyder a syniadau a weithiwyd allan ymlaen llaw.

Mewn-eisteddiad

Dyma ble mae grŵp yn mynd mewn i adeilad neu leoliad ac yn eistedd am gyfnod o amser mewn protest. Yn aml mae pobl yn eistedd nes datrys y broblem, nes bod cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng yr ymgyrchwyr a'r targedau. Mae'n bwysig fod y lleoliad wedi'i gysylltu â'r ymgyrch.

Gorymdeithio

Mae gorymdeithio drwy dref neu ddinas yn medru amlygu eich protest at gynulleidfa ehangach, yn hytrach na chynnal cyfarfod mewn un man. Mae hwn yn gweithio'n dda os oes ffocws ar y diwedd, neu os oes pwrpas penodol iddo. Peidiwch anghofio bydd angen caniatâd yr heddlu ar gyfer gorymdaith. Er mwyn cael yr effaith gorau posib, sicrhewch fod gennych faneri a hysbyslenni sy'n defnyddio sloganau bachog - dydych chi ddim eisiau colli unrhyw gyfle i ledaenu'ch neges.

Torf Fflach

Dyma grŵp mawr o bobl sy'n ymgynnull yn sydyn mewn man cyhoeddus, perfformio gweithred anarferol a dibwynt, ac wedyn gwahanu. Defnyddir y term parthed ymgynulliadau a drefnwyd drwy delegyfathrebu, cyfryngau cymdeithasol neu e-bost firws. Gall fod yn effeithiol ond mae'n dibynnu'n helaeth ar strategaeth gyfathrebu i ennill cefnogaeth i'ch ymgyrch.

A chofiwch.....

Beth bynnag yw'r gweithgaredd y gofynnwch i'ch cefnogwyr gymryd rhan ynddo, mae'n hanfodol eu bod yn derbyn gwybodaeth, cefnogaeth ac adborth. Gall datblygu a meithrin eich perthynas gyda'ch cefnogwyr fod yn hanfodol i'ch llwyddiant, fel datblygu eich perthynas a'ch targed ymgyrchu. Mae'n werth cofio hefyd mai eich ymgyrch chi fydd yn anelu at godi ymwybyddiaeth gyhoeddus neu newid ymddygiad y cyhoedd, ac felly mae cefnogaeth pobl real yn rhan hanfodol o'ch ymgyrch. Peidiwch tanseilio cefnogwyr da - fe weithiodd i Barack Obama!

4. Lobio gwleidyddion

Mae lobio yn weithred gyfreithlon y gall mudiadau gwirfoddol ei wneud fel rhan o'u gwaith. Mae gwybodaeth am ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar ymgyrchu a lobïo ar eu taflen wybodaeth CC9 ar gael ar y wefan (www.charity-commission.gov.uk/Charity_requirements_guidance/Your_charitys_activities/Campaigning/default.aspx).

Mae lobïo yn weithred o ddylanwadu ar y bobl sy'n gwneud penderfyniadau (AS, AC ac ati) er mwyn ceisio eu cefnogaeth ar gyfer eich ymgyrch. Efallai fyddwch yn gofyn iddynt adlewyrchu'r gefnogaeth yma yn y ffordd y maent yn datblygu polisi neu ddeddfwriaeth. Gall gweithio gyda gwleidyddion fod yn ffordd effeithiol o symud eich ymgyrch ymlaen, ac os ydych yn ymgyrchu am newid polisi neu ddeddfwriaeth, bydd diogelu cefnogaeth wleidyddol yn rhan allweddol o'ch ymgyrch.
Fodd bynnag, efallai byddwch eisiau sicrhau cefnogaeth gwleidyddion sy'n effeithio ar eu rôl fel cynrychiolydd etholaeth. Gallant fod yn darged eich ymgyrch ond hefyd yn gefnogwyr posib. Fodd bynnag, mae'r rôl yma law yn llaw a'u rôl bleidiol, eu rôl etholaethol a'u rôl ym mha bynnag gorff democrataidd y maen nhw'n perthyn Mae gwneud ymchwil gwleidyddol yn hollbwysig - ydych chi angen cefnogaeth lywodraethol, meinciau-ôl, gwleidyddion sy'n cynrychioli ardaloedd arbennig neu rhai sydd â diddordeb mewn pwnc penodol?

Wrth geisio dylanwadu ar wleidyddion mae'n hollbwysig bod yn hynod o glir am beth rydych angen iddyn nhw wneud. Er enghraifft, ydych chi eisiau iddynt:

- Siarad mewn dadl?
- Ysgrifennu llythyr?
- Holi cwestiynau?
- Cyfarfod ag eraill?
- Pleidleisio mewn ffordd arbennig neu ar fater penodol?
- Ceisio cyhoeddusrwydd?
- Ymuno â'ch ymgyrch?
- Newid polisïau?
- Newid neu greu deddfau newydd?

Mae gwleidyddion yn bobl brysur sy'n derbyn gwybodaeth drwy'r amser. Rhaid i chi feddwl yn ofalus sut ydych yn mynd i ddal eu sylw a chadw'r sylw mewn amgylchfyd torfol. Dyma fwy o syniadau ar sut i gadw'r mater ar y ddesg yn hytrach nag yn y bin sbwriel:

- Ceisiwch osgoi lobïo gwleidyddion drwy'r cyfryngau – lobïwch yn uniongyrchol. Mae'r cyfryngau yn ffordd dda o godi ymwybyddiaeth eang, ond mae'n ddefnyddiol i fynd at y gwleidydd yn uniongyrchol.
- Mae gwleidydd yn ymateb i beth sydd o'i flaen – felly mae'n ddefnyddiol i ystyried sut allwch chi gael yr etholwyr i godi'r mater.

- Paratowch y gwleidydd ar gyfer dwy ochr y ddadl, neu fe fydd yn agored i'r gwrthwynebwyr.
- Adnabyddwch faterion diddordeb y gwleidydd.
- Darparwch ddeunyddiau briffio clir, cryno, darllenadwy, heb jargon – rhaid iddo gynnwys y neges allweddol ac eglurder am beth rydych eisiau iddo wneud.
- Peidiwch disgwyl iddynt gael lefel eich arbenigedd chi ar y mater.
- Peidiwch tybio mai eich achos chi fydd yn cael blaenoriaeth – mae yna nifer o achosion da a hawliau cystadleuol.
- Peidiwch bod yn or-ddyfal.
- Trefnwch gyfarfod wyneb yn wyneb, efallai gyda grŵp bach neu ddirprwyaeth, i ddarparu cyfleoedd i'r gwleidydd gael profiad personol o'r ymgyrch.
- Byddwch yn rhesymol ac yn wrthrychol heb fynd dros ben llestri.
- Ceisiwch gael cefnogaeth drawsbleidiol, a defnyddiwch y glymblaid.
- Meddyliwch sut all staff y gwleidydd helpu. Gallant fod yn gyswllt defnyddiol.
- Trafodwch sut i gael y cyhoeddusrwydd gorau, a chofiwch eu bod yn ymgyrchwyr profiadol sy'n llawn syniadau.
- Rhowch wybodaeth iddynt am holl weithgareddau'r ymgyrch / datganiadau'r wasg ac ati.
- Peidiwch chwarae gêm boliticaidd gyda'r gwleidydd; ffordd dda o osgoi hyn yw ymchwilio'n fanwl yn gyntaf ac adnabod yr amgylchfyd gwleidyddol.

Ffynonellau Gwybodaeth Pellach

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk

NCVO Campaigning Effectiveness Team:
www.ncvo-vol.org.uk/campaigningeffectiveness

38 Degrees – gwefan Ymgyrchoedd
www.38degrees.org.uk/

Louder.org.uk – gwefan ar gyfer e-ymyrchu
www.louder.org.uk/

Sheila McKechnie Foundation – Campaign Central
www.campaigncentral.org.uk/

Campaign Strategy.org
www.campaignstrategy.org/index.php

Media Trust
www.mediatrust.org/

nfpSynergy – Top Ten Tips for Charities from Journalists
www.nfpsynergy.net/reports_presentations/nfpsynergy_our_latest_editorial/top_ten_media_tips_for_charities_from_journalists.aspx

They work for you.com – darganfyddwch sut mae eich AS wedi pleidleisio ar wahanol faterion
www.theyworkforyou.com (nid yw hyn ar gyfer AC)

Write to them.com – darganfyddwch pwy yw eich cynrychiolwyr etholedig
www.writetothem.com

Os oes gennych ddiddordeb mewn Materion Cyhoeddus a Lobïo yng Nghymru, gallwch ystyried ymuno â Public Affairs Cymru:
www.publicaffairscymru.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Medrwn Môn
Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR
Elusen Gofrestredig: *1088828*

Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org
Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:19/10/2012

Ffôn: 0300 111 0124
www.wcva.cymru